

Mae CNC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Mae ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (2016) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ymgymryd â'i swyddogaethau a'u cyflawni mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o adnoddau naturiol Cymru ac yn sicrhau lluo o fanteision amgylcheddol a chymdeithasol.

### **Prif Gyswllt**

Enw: Thomaz Andrade

Cyfeiriad e-bost : [thomaz.andrade@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:thomaz.andrade@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Rhif ffôn: 07443835719

### **Amlinelliad o'r Prosiectau**

#### **Prosiect 1: Deall ffynonellau, llwybrau ac effeithiau Hydrocarbonau Polyaromatig ar ddyfroedd naturiol yng Nghymru**

Yn nosbarthiad diweddaraf y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer Cymru (2021), cawsom gynydd mewn methiannau o ran y terfyn aciwt (MAC-EQS) ar gyfer Hydrocarbonau Polyaromatig (PAHs). Ni chanfuwyd unrhyw reswm amlwg dros y cynnydd hwn, megis newid y defnydd o'r tir neu allyriadau newydd annisgwyl o ffynonellau nodweddiadol. Mae'n ymddangos hefyd nad yw rhannau eraill o'r DU wedi gweld cynnydd ar lefel debyg yn yr un cyfnod. Mae rhai damcaniaethau wedi'u cynnig, megis glawiad eithafol, o bosibl yn gysylltiedig â dwyster glawiad o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd, yn ymwneud â gwaddodiad uwch neu hyd yn oed microblastigau, a allai fod yn gludwyr Hydrocarbonau Polyaromatig. Hefyd, mae gwendidau posibl yn y safon bresennol, a ddeilliodd yn wreiddiol o'r UE, sy'n arwain at nodweddu gwan o ran y lefelau risg i'r amgylchedd dŵr.

Prif amcan y lleoliad hwn yw ymchwilio i fethiannau PAH, gan ystyried ffynonellau a llwybrau tebygol, gan gynnwys rôl bosibl digwyddiadau eithafol. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data ansawdd dŵr yng ngoleuni setiau data eraill megis defnydd tir a glawiad, yn ogystal â chymharu data o rannau eraill o'r DU.

Ail amcan, i'w ddilyn os oes amser a/neu gapasiti, yw asesu a yw'r safon bresennol yn ddigonol, drwy adolygu'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd ers i'r safon fod yn ei lle.

#### **Prosiect 2: Adolygiad beirniadol o opsiynau a dulliau o ddynodi parthau cymysgu ar gyfer llygredd tarddle penodol**

Mae'r Gyfarwydddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol (2008) a'r ddeddfwriaeth drawsosodedig gysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr amgylcheddol ddynodi parthau cymysgu gerllaw manau gollwng. Mae angen i CNC adolygu a chryfhau ei ymagwedd at barthau cymysgu, yn ogystal ag ystyried pa mor berthnasol yw i yrwyr polisi eraill megis ardaloedd morol gwarchoddedig. Bydd y prosiect hwn, felly, yn adolygu gofyniad y ddeddfwriaeth bresennol, tystiolaeth bresennol, ac arfer gorau ar sut i sefydlu a rheoli parthau cymysgu. Yr allbwn dymunol fyddai adolygiad o lenyddiaeth ac argymhellion i lunio dogfennau arweiniol.

## **Sgiliau Hanfodol**

- Sgiliau ymchwil rhagorol
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth a data cymhleth
- Y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno
- Y gallu i gyflwyno deunydd technegol mewn fformat hygyrch
- Sgiliau cyflwyno
- Meddwl creadigol
- Y gallu i ddefnyddio dull arloesol

## **Sgiliau a Ddatblygwyd**

Bydd y lleoliad yn rhoi dealltwriaeth o weithrediad corff Rheoleiddio Amgylcheddol y DU a'r defnydd o bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn tîm hynod dechnegol ac amrywiol o fewn y grŵp Polisi Dŵr, gyda chyfleoedd i ehangu'r wybodaeth a'r profiad ar sut mae polisi amgylcheddol yn cael ei weithredu mewn gwahanol gydrannau o'r amgylchedd dŵr. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n annibynnol a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau mewnol. Bydd cyfle i brofi cydweithio pellach gyda rhannau eraill o CNC, megis y labordy a gweithrediadau rheng flaen, yn ogystal â phrofi'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd ac yn cydweithio â phartneriaid allanol megis y diwydiant dŵr, y byd academiaidd a'r trydydd sector. .

---

## **Nifer y Lleoliadau a Gynigir**

Dau hyd at bedwar (2-4). Gall pob prosiect dderbyn 1 neu 2 fyfyrwr. Bydd cael 2 fyfyrwr yn arwain at ddadansoddiad mwy manwl gyda ffocws gwahanol ar gyfer pob un. Gellir rhannu Prosiect 1 yn a. ffynhonnell/llwybrau; gyda dadansoddi data ac asesu risg a b. effaith; adolygiad o ddeiliad EQS ac opsiynau ar gyfer dull bio-argaeledd wedi'i deilwra'n well i ddatblygu EQS. Byddai Prosiect 2 yn cael ei rannu yn a. canolbwyntio ar EQSD, trwyddedu a chynllunio rheoli basn afonydd a b. canolbwyntio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol ac opsiynau ar gyfer dulliau modelu.

## **Amserlen Bosibl**

Hyblyg

## **Proses Ymgeisio**

Cysylltwch â thîm lleoliadau CNC: [Leoliadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Leoliadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â'r cyswllt arweiniol uchod.